| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **22 EBRILL 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD POWIS, PRIFYSGOL BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Neuadd Powis, Coridor Powis, Neuadd PJ, Y Pedrant mewnol ac allanol, a'r Prif Adeilad y Celfyddydau ar Ffordd y Coleg, Prifysgol Bangor LL57 2DG. Cyflwynir y cais ar ran y Brifysgol gan Cheryl Wright , Gwasanaethau Masnachol Adeilad Ffriddoedd, Rhodfa Buddug, Bangor LL57 2EN. Pwrpas cyflwyno'r cais yw sicrhau ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol sy'n bodoli ar y drwydded gyfredol ar gyfer y mangreoedd a nodir ar gyfer y Ddawns Haf a gynhelir unwaith y flwyddyn yn ystod Mai/Mehefin.

| Gweithgareddau trwyddedig | Oriau Cyfredol | Oriau Arfaethedig |
|---|---|---|
| | | |
| Perfformiad o ddramâu | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Dangos ffilmiau | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cerddoriaeth Fyw | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cerddoriaeth wedi ei recordio | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Perfformiad dawns | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cyfleusterau ar gyfer dawnsio | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Darparu lluniaeth hwyr y nos | | |
| Cyflenwi alcohol | 12:00 – 23:00 | 12:00 – 23:00 |
| Oriau agor a chau i'r cyhoedd | 09:00 – 00:30 | 09:00 – 00:30 |
| Amseroedd an -safonol | | 09:00 – 05:00* |

Gofynnir am ymestyn oriau gweithgareddau trwyddedig tan 05:00 y bore ar gyfer y Ddawns Haf, bwriedir chware cerddoriaeth tu mewn i'r adeiladau yn unig ar ôl 04:00 y bore.

Mae'r Heddlu wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd cyn i'r cais gael ei gyflwyno; ac fe nodir yn y sylwadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu fod y cais yn unol â'r trafodaethau a gafwyd; ac felly nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Cymuned/Tref | Dim sylwadau |
| Heddlu | E bost – dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - sylwadau ac amodau |
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd | Llythyr - sylwadau ac amodau |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

## CRYNODEB O’R SYLWADAU

### Gwasanaeth Tan ac Achub.

Gwneir argymhelliad o ran y niferoedd o bobl a ganiateir fel cyfanswm ymhob mangre sydd yn berthnasol i’r cais.
Fe wneir argymhelliad hefyd parthed canllawiau diogelwch tan ar gyfer pebyll adloniant, yn ogystal ag argymhelliad parthed cadw drysau ar agor yn ystod cyfnodau gweithgareddau trwyddedig.

### Sylwadau Swyddog Gwarchod y Cyhoedd

Gofynnir i’r Is - Bwyllgor gynnwys yr amodau penodol a atodir gyda llythyr y swyddog mewn perthynas â atal niwsans sŵn a niwsans yn deillio o oleuadau os bydd y cais yn cael ei ganiatáu.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.